Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**MEDI 25**

**Croeso** i rifyn mis Medi o'r Bwletin Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Cawsom saib o'r bwletin misol ym mis Awst felly mae gennym lawer i'w rannu â chi yn y rhifyn hwn, gan gynnwys dolenni at adnoddau newydd a chyffrous a gwybodaeth am y Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth ADUS nesaf.

Wrth inni agosáu at nodi blwyddyn ers lansio'r ADUS, rydym am fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi gweithio gyda ni i gyflawni'r dull arloesol newydd hwn ar gyfer cynnal adolygiadau yng Nghymru - diolch!

**ADUSau sydd wedi'u comisiynu**

Cafodd 4 ADUS eu comisiynu ym mis Awst a mis Medi, felly mae cyfanswm yr ADUSau sydd wedi'u comisiynu ers 1 Hydref bellach yn 27

Ymarfer Plant: 15
Ymarfer Oedolion: 4
Yn ymwneud â Cham-drin Domestig: 4
Lladdiad Iechyd Meddwl: 2
Adolygiadau ar y Cyd: 2

## Newyddion

Mae'r Hwb Cydgysylltu wedi bod yn gweithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd i greu adnoddau newydd ar gyfer unigolion sy'n cymryd rhan mewn ADUSau. Mae'r rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth i'w defnyddio ar gyfer ADUSau sy'n ymwneud â lladdiadau iechyd meddwl, taflenni gwybodaeth ar gyfer unigolion megis ffrindiau, cyflogwyr a chymdogion a allai fod yn rhan o ADUSau, taflen wybodaeth ar y rhyngwyneb rhwng y cyfryngau ac ADUSau a thudalen wybodaeth ar gyfer newyddiadurwyr sy'n adrodd ar ADUSau.

# Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth

Bydd y digwyddiad lledaenu gwybodaeth nesaf yn cael ei gynnal ar 20 Tachwedd yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd. Bydd y siaradwyr yn cynnwys y canlynol:

- Khatidja Chantler, Athro Rhywedd, Cydraddoldeb a Chymunedau ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion, a fydd yn rhoi cyflwyniad ar yr hyn a ddysgwyd o adolygiadau i laddiadau oedolion mewn teulu
- Dr Beth Davies, Cydymaith Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd a fydd yn cyflwyno dadansoddiad o'r argymhellion yn dilyn achosion o niwed difrifol a lladdiadau yng Nghymru
- Julian Hendy, Hundred Families, a fydd yn trafod yr hyn a ddysgwyd o Laddiadau Iechyd Meddwl yng Nghymru
- Ceri Fowler, Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, GIG Cymru, a fydd yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau i hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig
- Kirsty McDowell, Wendi Ross a Sue Hurley, Adolygwyr a Chadeirydd ADUS, a fydd yn rhoi cyflwyniad ar yr ymarfer a'r hyn a ddysgwyd o Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol Cwm Taf

Bydd sesiynau trafod yn canolbwyntio ar y gwahanol rolau, y camau a'r arferion gorau wrth gynnal ADUSau.

Bydd gwahoddiad Eventbrite yn cael ei rannu â chi yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Hoffem glywed gennych chi!**

Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

# Hyfforddiant

Mae'r ffilmiau ADUS bellach ar gael ar-lein!

- Mae Ymwybyddiaeth i Bawb yn ffilm i bawb, p'un a ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag ADUSau ai peidio
- Mae'r ffilm Digwyddiadau Dysgu yn amlinellu'r hyn i'w ddisgwyl o'r sesiynau a pham y maent yn bwysig
- Mae'r ffilm Cyflwyniad ar gyfer Uwch-arweinwyr yn esbonio'r broses ADUS ac yn annog dealltwriaeth o'r gofynion a osodir ar weithwyr

**Rhannwch y dolenni hyn â'ch cydweithwyr a'ch rhwydweithiau**

# Adnodd Newydd Gwych i Wella Argymhellion

Thema sesiwn y Rhwydwaith Cymorth ar gyfer Adolygwyr a Chadeiryddion a gynhaliwyd ym mis Medi oedd 'Ysgrifennu Argymhellion'. Yn ystod y sesiwn hon, cyflwynodd yr Athro Michelle McManus y canllawiau cam wrth gam newydd ar gyfer ysgrifennu argymhellion sy'n cyd-fynd â'r iFframwaith Argymhellion. Mae Michelle wedi llunio canllawiau i Gymru, yn benodol i'w defnyddio wrth gynnal ADUSau. Byddant yn helpu pawb sy'n ymwneud ag ADUSau i lunio argymhellion clir, atebol, y gellir eu rhoi ar waith er mwyn llywio ymarfer ac ysgogi gwelliannau.